Library
PACIFIC
FOR
Berkeley

# YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
CYRDDAU CHWARTER ABERDÂR.
YR HAWL I DDEDWYDDWCH.
PRIODAS.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv. | Rhag. 1935 | Rhif 12

# YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.



LLYFR NEWYDD

## SARNICOL

## 'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

## CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

*Gan IDWAL JONES.*

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

# YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

*Golygydd : Y Parch. T. L. JONES*

CYFROL XXXV. RHAGFYR, 1935. RHIF 12

## " DOS I'TH YSTAFELL—."

" CHWYCHWI oll, plant y goleuni ydych, a phlant y dydd : nid ydym ni o'r nos nac o'r tywyllwch.—*1 Thes. v. 5.*

* * *

NID y dyn sydd yn gwneyd dim yw'r unig segurddyn, ond y dyn allai fod yn gwneyd pethau gwell.—SOCRATES.

* * *

MAE rhai pobl mor gul eu meddyliau, ac wedi rhwymo mor dyn gan gadwyni yr amser gynt fel y gwrthodant nid yn unig i lefaru yn wahanol i'w cyndeidiau ond i feddwl yn wahanol i'w cyndeidiau. Llefara Duw wrthym ninnau hefyd, a'r meddyliau gorau ydyw'r meddyliau roddir i ni yr awrhon. Fe ragorwn ni ar yr hynafiaid. SAVONAROLA.

* * *

Y PETH mwyaf pwysig mewn llyfr ydyw nid yr hyn a ddywed ond yr hyn mae yn ofyn ac yn awgrymu. Gwell gan iawnffyddiaeth gael ei chyhuddo na'i holi.—HORACE TRAUBELL.

* * *

BYDDED i'n hysgolion ddysgu urddas llafur a phrydferthwch gwasanaeth ond peidient byth a dysgu ofergoelion y gorffennol.—PETER COOPER.

* * *

ADDYSG ydyw'r ddyled sydd ar y genhedlaeth bresennol i genedlaethau y dyfodol.—GEORGE PEABODY.

* * *

A YDWYF yn gwrthddweyd fy hunan? Digon da, ynte! Yr wyf yn gwrthddweyd fy hunan. Yr ydwyf yn eang : yr ydwyf yn cynnwys tyrfaoedd.—WALT WHITMAN.

* * *

DIOLCHWN i Ti ein Tad am bawb sydd wedi cynorthwyo dynoliaeth i'th adnabod Di yn well ac i fod yn fwy ufudd i'th ewyllys Di,—am bawb sydd wedi datguddio i ni ryw gymaint o ystyr a gwerth bywyd, am bawb sydd wedi goleuo ein llwybrau a thywys ein cerddediad. Bydded i ni gael dysgu ganddynt hwy i'th geisio Di drosom ein hunain, ac i wneyd ein gweithredoedd a'n meddyliau yn gymeradwy yn dy olwg Di. Amen.

# Nodiadau'r Golygydd.

### Ar ôl y frwydr.

Aeth twrw yr etholiad heibio, ond ni fu llawer o dwrw chwaith. Dywedai bron yr oll o ohebwyr y papurau newyddion mai dyma yr etholiad ddistawaf fu ers tro maith. Awgrymai rhai fod yr etholwyr wedi penderfynu ar y dechreu sut y byddent i bleidleisio, ac na fu i hyawdledd yr ymgeiswyr na chyngorion doethion y wasg ddylanwadu fawr arnynt. Mae lle i gredu fod hyn yn debyg o fod yn wir. Os felly arweinir ni i gredu fod y wlad ar y cyfan yn weddol fodlon ar bolisi y Llywodraeth yn ystod y pedair blynedd aeth heibio. Nid oes arnaf awydd ymdrin â chwestiynau politicaidd fel y cyfryw ond buddiol a diddorol efallai fyddai nodi pedair ffaith amlwg.

Mae canlyniad yr etholiad yn mynegu ffydd mwyafrif sylweddol ym mhersonoliaeth un dyn—y Prifweinidog. Mae hyn, efallai, yn arwyddo ffaith sydd yn ddyfnach na pholitics. Mewn byd sydd a rhannau helaeth o'i drigolion wedi ynfydu ar ddynion fel Mussolini a Hitler, mae rhyw dipyn o gysur yn y ffaith y gellir mewn un wlad, beth bynnag, ennill parch a gwarogaeth i gymeriad gweddol blaen a digyffro fel eiddo Mr. Baldwin, ac yntau, hyd y gellir gweled, yn gywir yn ei gariad at ryddid a gweriniaeth.

Peth arall sydd yn debyg o fod yn wir yw fod canlyniad yr etholiad yn fynegiant o ddymuniad y parheir hyd yr eithaf i gefnogi a chymell Cynghrair y Cenhedloedd yn ei hymdrech i fyw i fynu a'r amcan y crewyd hi iddi.

Ffaith arall sydd yn werth sylwi arni ydyw mai ychydig fu dylanwad "Cyngor Gweithredu" Mr. Lloyd George. Mae'n debyg fod rhai o'r pregethwyr a'r arweinyddion crefyddol fu mor frwd dros y cyngor yn teimlo braidd yn ddigalon erbyn hyn. Mae digon o angen am ddylanwad crefydd ar wleidyddiaeth, a digon o angen crefydd ar lawer i wleidyddwr, ond nid yw'n debyg y gellir gwneyd Anghydffurfiaeth eto yn llawforwyn i unrhyw barti politicaidd fel y gwnawd Anghydffurfiaeth yn llawforwyn i Ryddfrydiaeth yn y gorffennol. Daeth pethau mawr a buddiol o'r cydweithrediad hwnnw, mae'n wir, ond nid dyna'r ffordd heddyw, ac ar y cyfan testun diolch ydyw hyn.

Y ffaith olaf ydyw hon. Os gwir mai ychydig fu dylanwad gwasg a llwyfan ar yr etholwyr, hwyrach y dylai llawer o honom gyweirio ein syniadau ar allu y dyn cyffredin i feddwl drosto ei hun. Mae amryw ohonom yn hoff o daranu yn erbyn dylanwad melldithiol y wasg ac hyawdledd rhad ac arwynebol y siaradwr poblogaidd, ond os nad yw'r dylanwad hwnnw wedi'r cyfan yr hyn a

dybiasom ei fod, mae lle i obeithio y caiff bobl ryw ddydd y wasg a'r Senedd a deilyngant.

### Rhyddfrydiaeth.

Nid amcan unrhyw un o'r sylwadau uchod ydyw taflu anfri ar Ryddfrydiaeth, ond rhaid wynebu ffeithiau, ac ymddengys yn ffaith erbyn hyn fod y blaid Ryddfrydig ar ddiflannu o'r tir. Mae y bobl ieuainc bron i gyd wedi rhoddi eu gwarogaeth i un o'r ddwy blaid arall. Ond erys y *ffydd* Ryddfrydig yn y wlad hon, a da hynny, neu tywyll yn wir fyddai y rhagolwg. Ni fu mwy o angen erioed am y dyn rhyddfrydig ei ysbryd. Mae angen am dano mewn gwleidyddiaeth i liniaru tipyn ar erwinder Ceidwadaeth ac i ddofi ychydig ar wylltineb poeth y Sosialydd a'r Comiwnist. Yr ysbryd rhyddfrydig sydd yn byw heddyw ym mhopeth sydd yn oreu ym mywyd gwleidyddol ein gwlad er i'r corff fu unwaith yn deml i'r ysbryd wywo ymaith.

### Mark Twain.

O bob elfen fu yn gweithredu yn natblygiad a thyfiant dynoliaeth, efallai mai hiwmor gafodd leiaf o'i gwerthfawrogi gan haneswyr. Ymddengys, fodd bynnag, y dethlir yn anrhydeddus y mis yma ganmlwyddiant un gyfrannodd yn helaeth ac yn deilwng i lenyddiaeth ddigrif y byd. Americanwr oedd " Mark Twain ", a'i enw priodol oedd Samuel Clemens. Digrifwch pur geir yn ei lyfrau ar y mwyaf ond mae cynllun ac amcan i lawer o'i ddigrifwch. Nid oedd yn hoff o frenhinoedd ac arglwyddi, ac ni flinai chwerthin am ben traddodiadau ac iawnffyddiaeth mewn crefydd a bywyd. Clywais rywbryd i un o Sosialwyr blaenaf yr Alban freuddwydio am sefydlu a chynnal papur newydd wnai yrru Cyfalafiaeth allan o'r byd drwy chwerthin am ei phen. Gwnaeth Mark Twain ei ran i ymladd brwydr Cyfiawnder a Rhyddid a Gwirionedd drwy chwerthin am ben y bobl a'u rhwystrent, a gwneyd testun digrifwch hefyd o'r pethau anonest, anheg a'r pethau bach " mên " ynom ni sydd yn brwydro yn erbyn y pethau goreu. Ond hyd yn oed pe na byddai wedi bod yn ddigrif gyda phwrpas, byddai ffaith iddo wneyd y miloedd i chwerthin yn gwneyd Mark Twain yn un o gymwynaswyr yr oesau, oherwydd nid oes dim yn well na chwerthin i yrru allan yr ysbrydion aflan.

### Gwyddor a Bywyd.

Byddai y rhan fwyaf o honom yn barod i gredu mai oes wyddonol yn bendifaddeu ydyw ein hoes ni, ond dyma un o'n gwyddonwyr blaenaf yn haeru fod hyn ymhell o fod yn wir. Dywedodd yr

Athro Julian Huxley yn ei " Halley Stewart Lecture " mai mewn rhai agweddau o fywyd yn unig y mae ein hoes ni yn oes wyddonol. Ychydig o'r ysbryd gwyddonol, meddai'r athro, sydd yn ein hymdrin â phroblemau ein cyfundrefn gymdeithasol, a phroblemau y teimladau dynol. Cyn y gallwn hawlio ein bod yn wir wyddonol rhaid i ni ymdrin mewn ffordd wyddonol â phob agwedd o'r bywyd dynol.

Yn y byd fel ag y mae heddyw gwrthodir gosod llawer o ddarganfyddiadau y gwyddonwyr mewn gweithrediad. Yng ngoleuni darganfyddiadau gwyddonol gellid peri i lawer iawn o diroedd i gnydio yn drymach, ond ym mhob gwlad bron mae'r llywodraeth yn gorfodi'r amaethwyr i leihau ei cnydiau, ac yn ei gorfodi yn aml i'w dinystrio. Mae darganfyddiadau diweddar wedi taflu llawer o oleuni ar broblemau iechyd a bwydydd iachusol, ond ychydig o ddefnydd wnawd o'r wybodaeth yma. Gwerir tri chwarter o'r arian roddir at wasanaeth y gwyddorau ar broblemau rhyfel a diwydiant, ond ychydig iawn werir ar broblemau meddyl-egol a chymdeithasol. Eto cydnabyddir yn gyffredin fod bron yr oll o anhawsderau cymdeithas heddyw yn tarddu, nid o'n methiant i reoli pwerau natur, ond o'n methiant i reoli y natur ddynol.

Mae pregethwyr wedi sôn digon fod dyn yn arglwydd ar bopeth ond arno ei hun, ond dyma wyddonwr yn cytuno â'r pulpud. Mae'n bosibl na chytunai'r gwyddonwr â'r mwyafrif mawr o bregethwyr ynglŷn â'r ffordd y medrid gwneyd dyn yn feistr arno ei hun, ond yn sicr mae angen am lawer gwell dealltwriaeth rhwng y gwyddonwr a'r pregethwr ar y broblem hon, a lle i lawer mwy o gydweithrediad.———

### A ellir newid y natur ddynol.

O sôn am newid " anian " dyn, diddorol dros ben oedd araith draddodwyd yn yr Amerig beth amser yn ôl gan Dr. Breasted, awdurdod ar hanes gwareiddiad cynnar. Cyfeiriai yr athro at yr hyn ddywedwyd ar gwestiwn y " New Deal " gan aelod o'r Weinyddiaeth yn yr Unol Dalaethau. " Ni ellir dwyn o amgylch drawsffurfiad cymdeithasol fel yr hyn a ymdrechir gan y " New Deal ' heb newid calonnau dynion." Mewn ateb i hyn ceisia yr athro bwysleisio na all un genhedlaeth etifeddu " calon newydd " y genhedlaeth o'r blaen. Mae atitiwd ysbryd dyn yn cael ei greu gan bob cenhedlaeth drosti ei hun. Addefa yr athro fod calonnau wedi cael eu newid lawer gwaith yn y gorffennol, ond rhywbeth ddigwyddodd i deimladau dynion dros amser oedd y cyfnewid, ac ni ellid ei drosglwyddo i genhedlaeth newydd ond i'r graddau yr oedd ei effaith wedi ei ymgorffori mewn llên a chelf a thraddodiad. Y ffaith yma, meddai'r athro, sydd i gyfrif am arafwch

cynnydd cymdeithasol. Gall addysg deilwng efallai gyflymu y cynnydd, ond ofer ceisio corffori calonnau newydd mewn deddf gwlad a chyfundrefn. Oni cha y genhedlaeth newydd galonnau newydd hefyd, torrir y gyfraith a dryllir y gyfundrefn.

Diddorol o safbwynt hanesyddol ydyw sylwi i'r athro yn ei araith ddweyd nad oedd Amos ac Hosea ond yn ail ddweyd neges a draddodwyd gan broffwydi cymdeithasol yr Aifft bedair canrif ar ddeg yn gynharach. Ar hen ysgrifau o'r Aifft ceir brawddegau fel hyn—" Nid oes gryfder gan y dyn tlawd i achub ei hun rhag yr hwn sydd gryfach nag ef." " Bydd i bobl ei oes ef lawenhau, gwnaiff mab y dyn ei enw yn oes oesoedd. Daw Cyfiawnder yn ôl i'w lle, ac Anghyfiawnder a deflir allan." Ptahboteh oedd y proffwyd cymdeithasol cyntaf fu erioed, meddai Dr. Breasted. Cynhwysid ei ddelfryd ef o ymddygiad yn y frawddeg hon—" Cadarn ydyw'r dyn safon yr hwn ydyw cyfiawnder ac a gerddo yn ei ffordd." Dyma air newydd yng ngeirfa dynoliaeth, meddai'r athro,—Cyfiawnder (Moot), ac o ddyfod o'r gair hwn, cymerodd dyn y cam pwysicaf yn ei hanes, o fyd lle nad oedd cydwybod yn bwer cymdeithasol i fyd ag ynddo gyfrifoldeb cymdeithasol a phosibiliadau di-derfyn.

### Hen lawysgrif bwysig.

Yn y flwyddyn 1920 daeth yr Athro Bernard Grenfell a nifer o hen lawysgrifau o'r Aifft i Lyfrgell Rylands yn Manceinion. Ymhlith y trysorau hyn darganfyddodd yn ddiweddar ddarn bychan o bapyrus ac arno nifer o adnodau mewn llawysgrif o'r bedwaredd efengyl. Ar un ochr ceir adnodau 31-33 o'r ddeunawfed bennod ac yr ochr arall adnodau 37-38 o'r un bennod. A barnu wrth ansawdd y papyrus, dywed awdurdodau i'r llyfr gael ei ysgrifennu yn ystod hanner gyntaf yr ail ganrif. Cesglir felly fod y bedwaredd efengyl mewn cylchrediad yng nghanolbarth yr Aifft yr adeg honno. Bernir gan rai fod y darganfyddiad hwn yn brawf fod y bedwaredd efengyl wedi ei hysgrifennu yn gynharach nag y tybir ambell waith. Cymerid yn ganiataol gan y mwyafrif o'r beirniaid ychydig flynyddoedd yn ôl na ysgrifennwyd y bedwaredd efengyl hyd tua 120 neu 130. Ond y casgliad ar ôl y darganfyddiad hwn ydyw fod yn rhaid i'r efengyl gael ei hysgrifennu yn gynharach cyn y gallai fod yn yr Aifft yn gynnar yn yr ail ganrif. Efallai y bydd yn rhaid cytuno i'r efengyl gael ei hysgrifennu tua diwedd y ganrif gyntaf. Gyda llaw, y darn bach yma o lawysgrif ydyw'r darn cynharaf sydd yn ein meddiant yn awr o unrhyw un o'r efengylau.

## Genesis neu Datblygiad ?

Mae perygl bob amser i gymeryd gormod o bethau yn ganiataol. Mae'n bosibl i ni gredu fod pob dyn goleuedig a chyfrifol yn credu erbyn hyn, fod theori datblygiad yn esboniad plaen a rhesymol a chymharol sicr o'r ffordd y daeth y byd yma i fodolaeth. Gŵyr pawb wrth gwrs am nifer fawr sydd yn hoffi ymosod arni heb erioed ddangos eu bod wedi gwneyd un ymdrech i'w deall.

Ond dyma ŵr gwir nodedig, Syr Ambrose Fleming, yn ysgrifennu llyfr i haeru fod dyn yn greadigaeth arbennig, fod pob un o wahanol "lwythau" dynoliaeth yn greadigaeth arbennig, ac fod stori dechreu dyn yn y Beibl yn hanesyddol wir.

Ar ôl hyna ni'n synnir i ddarganfod fod y Beibl wedi ei ysbrydoli air am air, ond ymddengys fod yn rhaid i Feibl ysbrydoledig wrth esboniad newydd yn awr ac yn y man. Ac mae esboniad Syr Ambrose yn newydd yn wir! Nid Adda oedd y dyn cyntaf. Dengys y ffaith fod gan Cain wraig na allai hyn fod. Yr oedd rhyw fath o ddynion is-raddol yn byw yn gynharach, ond Adda oedd y cyntaf i gael ei greu ar lun a delw Duw, ac mae'r dynion gwynion i gyd wedi disgyn o Adda!

Penderfynodd Duw roddi Adda ar brawf, a sarff oedd y temtiwr, ond nid sarff "real", ond ysbryd drwg wedi gwneyd ei hun yn weledig yn yr un modd ac y cymer ysbrydion arnynt ddelw a ffurf yng nghyrddau yr ysbrydegwyr.

Tra yr oeddent yn yr ardd yr oedd rhyddid perffaith i Adda ac Efa fwyta o Bren y Bywyd. "Mae yn amlwg" meddai Syr Ambrose "fod ffrwythau y pren hwn yn gyfoethog iawn mewn *vitamins*." Dyna paham yr oedd y dynion cyntaf yn byw cyhyd. Esboniad ar Methusela o'r diwedd!

Fel y dywedais, mae perygl i ni fod yn rhy barod i gymeryd pethau yn ganiataol. Felly dyma rybudd. Peidiwch a bod yn hollol sicr y bydd yr oll o ddarllenwyr yr Ymofynnydd yn gweld unpeth yn ddigrif yn esboniad newydd Syr Ambrose Fleming.

---

## YR ATHRO.

Llywiwr ei ddosbarth llawen,—i'r ieuanc
Dysg reol ac elfen ;
Hulia olau fel heulwen
O eglur bwnc ei glir ben.

## SIOM.

Llynedd yn brwd gynllunio—ei dŷ hardd
A bywyd hir ynddo ;
Eleni'n welw ohono
Â dan graith i'w dŷ 'n y gro !

*Llanbedr.* D. E. Thomas.

# Cyrddau Chwarter Aberdar.

Cynhaliwyd Cyrddau Chwarter yr Hydref yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, ar nos Fercher a Nos Iau, Hydref 30 a 31.

Yr oedd yr hin yn wir wlyb a diflas ac nid yw Aberdâr ar ei goreu ar ddiwrnod fel hyn. Ond yr oedd croeso gwresog i deithwyr blin yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Hawdd iawn yng nghanol prydferthwch newydd a disglaer yr hen gapel ac yn awyrgylch wir ysbrydol y cyrddau oedd anghofio duwch y cwm, a chawsom oll fwynhad a boddhad ar hyd y cyfarfodydd.

Pregethwyd nos Fercher gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos. Ei destun oedd, " Pa le y mae dy Dduw ? " o Salm xlii. 3. Cynnwys y Salm ddrama ysbrydol mewn tair act. Edrych y prydydd dienw ar grefydd, nid fel peth dymunol ond diangen, fel gwisg a osodir o'r neilltu—edrych ar grefydd fel yr unig beth sy'n rhoddi ystyr a gwerth ar ei fywyd. Ond ar draws ei ffydd angherddol syrthiodd cysgod tywyll, ac am y tro nid oedd dim yn *real* iddo ond ei drallod, a gwnai ei elynion loddest o'i flinder. Clyw sibrydion y *cynic* yn gofyn, Pa le yn awr y mae ei Dduw ? Gwawdia'r *cynic* ffydd y dyn duwiol eto. Heb grefydd ei hun honna mai lledrith ddiflanedig ydyw ffydd, rhywbeth na chydnebydd drasiedi'r byd. Fe all wau *theories* am Dduw a dyn, ond yn wyneb ffeithiau bywyd ymddangosant yn ddisail. Dyna safbwynt yr ysgol a gynrychiolir heddyw gan Bertrand Russell. Nid oes Dduw na phwrpas yn y bydysawd. Nid oes obaith am wella ond ychydig ar gyflwr dyn, ac yna fe ddaw'r diwedd didostur a thywyll ! Gwaeda calon yr henfardd tan ddyrnod y *cynic*, ac ar fin ymollwng i drueni'r mŵd clyw o ddyfnder ei enaid atsain cân,—Paham y'th ddarostyngir, fy enaid ? Gobeithia yn Nuw . . . Gwyddom am rai y parlyswyd eu ffydd dan faich galar a siomiant. Gwyddom hefyd am rai a ddaeth o hyd i'r goleuni mwy oherwydd eu beichiau, anghenion dygn yn galw allan *reserves* eu henaid. A dyma philosoffi'r bardd—yn y byd, trallod, ond trallod byd yn tapio'r Gallu o leflau dyfnaf yr enaid, yn ein galluogi i ganu, Cymrwch gysur, mi a orchfygais y byd. . . . Mewn adfyd collwn yr ymdeimlad o Dduw oherwydd ein difaterwch. Fe'n daliwyd yn amharod. Fe ŵyr y glowr ym mha ffordd i symud y garreg—dysgodd ei grefft, ac i'n dysgu ninnau'n y grefft o fyw y mae gwybodaeth y Pencrefftwr. " *Ymarfer* dy hun i dduwioldeb ".

Brynhawn dydd Iau pregethwyd yn Saesneg gan y Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca. Cymerodd ei destun o Luc xxiv. 31 a 32. Hawdd ydyw deall poen ac anobaith y bobl hyn gyfarfyddodd â'r Iesu ar y ffordd. Yr oeddynt wedi gobeithio y deuai rhywun mawr a chryf i sefydlu teyrnas yn yr hon y ceid digonedd a thang-

nefedd. Ond yn awr yr oedd eu siom a'u hangen yn fawr. Ond yn eu hawr gyfyng daeth llais heb lais rheswm i lefaru wrth eu calonnau. Teimlasant rym y nerthoedd ysbrydol sydd yn mynd i sefydlu teyrnas fewnol ysbrydol. Mae datblygiad wedi mynd yn y blaen yn nerth rhyw bwer sydd tuhwnt i'n deall ni. Y peth pwysig ydyw, nid o ba le y daeth dyn ond i ba le y mae yn mynd. Mae cynnydd cyflym wedi digwydd yn ein hanes ni. Mae yn bryd i ni i ofyn,—nid beth fydd y darganfyddiad nesaf, ond beth allwn ni greu fydd o werth. Oes Rheswm ydyw hon a sonir llawer am berygl afresymoldeb, ond mae perygl mwy—perygl y galon galed. Mae y byd heddyw yn ansicr, cenhedloedd yn cashau ei gilydd a'n pobloedd yn methu cyd-fyw. Gwers hanes y testun ydyw, mae ein hangen ni ydyw yr hyn y cais crefydd ei greu, yr ymwybyddiaeth o gael ein defnyddio gan allu uwch na ni. Nid yn nerth cyfrwysdod a rhesymoliaeth y gwneir gwir gynnydd ond drwy ysbrydoliaeth dynion a chanddynt weledigaeth. Y dyn gwir bwysig ydyw'r dyn sydd wedi uno ei hun ag amcanion aruchel. Ysbryd pobl fel hyn, pobl a chalonnau caredig sydd yn mynd i drawsffurfio y byd. Gwnant ein harwain ni allan o'n bychandra a'n balchter i brydferthwch a llawenydd byd newydd lle y cawn ninnau hefyd weled a deall a theimlo ein bod ninnau yn gweithio allan amcanion mawr.

Cafwyd papur gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ar y testun "Undodiaeth———?" (Gweler YMOFYNNYDD Tachwedd).

Yn yr hwyr pregethwyd yn gyntaf gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Aberystwyth, ar "Y Bumed Efengyl". Cymerodd ei destun o'r adnod olaf o'r Efengyl yn ôl Ioan: "Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu, y rhai ped ysgrifennid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybio y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifennid." Sôn mai yr awdur yn y fan yma am "yr Iesu na soniwyd am dano". Y mae y pedwar efengylydd wedi sôn llawer am yr Iesu a'i efengyl ac wedi ceisio rhoddi i ni bedwar darlun byw ohono ond rhaid cofio mai pedwar darlun geir yn y pedair efengyl,—*painting* ac nid *photograph*. Ni ddarluniodd y pedwar efengylydd yr Iesu yn yr un modd. Gwelir gwahaniaethau yn eu hanesion a chyfrifir am hyn o gofio iddynt bob yr un ddehongli Iesu o wahanol safbwyntiau. Paentiodd y pedwar yr Iesu fel y gwelent hwy ef ac oherwydd hynny maent hwy eu hunain yn eu darluniau. Er engraifft, yn narlun Holman Hunt,—"Goleuni'r Byd" gwelir y goleuni oedd yn enaid Hunt ei hun. Ymhob gwaith gwelir y celfyddydwr a gweithiau celf ydyw'r pedair efengyl. A chelfyddydwyr ydym ninnau yn llaw Duw, *artists* wedi ein galw i ddatguddio "yr Iesu na soniwyd am dano". Geilw Duw arnom i baentio Iesu fel y gwelwn ni Iesu, i fyw ei efengyl fel y gwelwn ni ef. A dyna'r bumed efengyl—yr efengyl yn eich ôl chwi. (Pwy ddywedwch *chwi* ydwyf fi?) Ydym ni

" RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

# YR YMOFYNNYDD

*CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.*

GOLYGYDD—

Y Parch. T. L. JONES, CEFNCOED, MERTHYR TYDFIL.

" PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFROL 35.

1935.

LLANDYSUL :

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

CYNNWYS.


Adolygiadau, 16, 46, 91, 157, 188.
Adran yr Ysgol Sul, 11.
Arholiad yr Ysgol Sul, 107.

Barddoniaeth :
Bore Sabath, 63.
Chwareon Mebyd, 15.
Dychymyg Mebyd, 10.
Diwifr, 74.
Siom, 182.
Tomos Glyn Cothi, 160.
Trugaredd, 144.
Yn sawr y grug yn si y môr, 10.
Y Crochan, 31.
Y Ffynnon, 136.
Y Dderwen, 136.
Yr Athro, 182.

Benywod Undodaidd, 6.
Beth feddylia Iddew am yr Iesu, 137.
Brwdfrydedd, 75.

Coleg Caerfyrddin, 123.
Crefydd yn y Cyffredin, 58.
Cristionogaeth fel crefydd newydd, 139.
Cyfarfodydd y Gymdeithas, 78, 114, 183.
Cylch Dylanwad, 125.
Cyllid y Gymdeithas, 173.

" Dos i'th Ystafell— " 1, 17, 33, 49, 65, 81, 97, 113, 129, 145, 161, 177.
Darlledu, 42.

Egwyddorion Cymdeithasol y Crynwyr, 41.
Er mwyn y ffrâm, 103.

Fy ngwyliau, 134.

Gweddi, 61.

Hen Eglwys yn y wlad, 38.

Ionawr, 9.

Lloffion o lyfr a llwyfan, 55.

Marwgofion, 13, 30, 47, 62, 79, 92, 108, 127, 144, 158, 174, 190.

Nodion yr Eglwysi, 15, 32, 48, 62, 80, 94, 110, 144, 159, 175, 192.
Nodiadau'r Golygydd—
Abyssinia a'i chrefydd, 130.
A ellir newid y natur ddynol, 67.
Apêl yr Eglwys, 67.
Ar ôl y Frwydr, 178.
Argyhoeddiad, 132.
Beio'r Eglwysi, 149.
Bede, 69.
Copeland Bowie, 68.
Crefydd a dysg, 66.

Nodiadau'r Golygydd—*Parhad.*
Crefydd ac addysg, 102.
Crynwr ac angen yr oes, 133.
Cyrddau Lerpwl, 82.
Datblygiad, 38.
Dial y Duwiau, 146.
Eglwysi Rhyddion a'r Llywodraeth, 98.
Einstein a rhyfel, 131.
Esgobyddiaeth, 35.
Genesis neu Datblygiad, 182.
Gweriniaeth ac addysg, 101.
Gwyddor a Bywyd, 179.
Gwyddor a chymdeithas, 148.
Hen lawysgrif bwysig, 181.
Heddwch Ewrop, 50.
Ieuenctid a'r Eglwys, 5.
Itali ac Abyssinia, 130.
Mark Twain, 179.
Nefoedd ac Uffern, 37.
Papurau a chrefydd, 102.
Prif ddigwyddiadau 1934, 2.
Pleidlais Heddwch, 52.
Proffwyd a delfryd, 133.
Rwsia, 70.
Rhyddfrydiaeth, 179.
Rhyddid ar yr awyr, 99.
Rhyddid ac addysg, 147.
Safon ffydd a threfn, 36.
Syr Thomas More, 69.
Troseddwyr Ieuainc, 131.
Undeb yr Eglwysi, 34.
Undodiaid a chwestiynnau'r dydd, 68.
Ymosod ar weriniaeth, 101.
" Y Papur Gwyn ", 51.
Yr Eglwysi a phroblemau cymdeithasol, 18.
" Yr Eglwys yng Nghymru ", 67.
Yr Unigolyn a'r wladwriaeth, 146.

Priodasau, 12, 29, 47, 77, 127, 143, 158, 174, 190.
Pwyllgor y Gymdeithas, 78, 119, 173.

Undodiaeth— ? 162.
Urdd y Benywod, 11, 161, 175.

Y Barbariad bach, 168.
Y Gymanfa, 130.
Y Llwybrau gynt lle bu'r gân, 22.
Yr Eglwys ar gynnydd, 44.
Yr Eglwyswyr Modern, 150.
Yr Hawl i Ddedwyddwch, 186.
Ymddiheurad Pasiffist, 88.
Ystyr Marwolaeth, 27.

yn credu mai Iesu yw goleuni y byd? Fedrwn ni ddim llai nag adlewyrchu y goleuni hwnnw yn ein cymeriadau. Yr hyn a wnawn a ddengys yr hyn a gredwn. Cymeriad ydyw credo dyn, ac yn mhob cymeriad da gwelir " y Crist na soniwyd am dano "—a dyna'r bumed efengyl.

Pregethodd y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, oddiar I. Brenhinoedd xxi. 3: " A Naboth a ddywedodd wrth Ahab, Na atto yr Arglwydd i mi roddi treftadaeth fy hynafiaid i ti." Amlygir yn yr hanes yma drachwant Ahab, ac mae llawer o'r ysbryd trachwantus hwn yn ein byd ni heddyw. Mae'n debyg y meddyliai Ahab hefyd na ddylai dyn bach fel Naboth wrthod dim iddo ef, ac mae llawer o'r ysbryd hwn yn ein byd ni ac mae i'w gondemnio. Ond mae gwir ddiddordeb yr hanes hwn yng nghymeriad Naboth, a'r rheswm oedd ganddo dros beidio gwerthu y winllan—Treftadaeth fy hynafiaid oedd hi. Gallai Naboth fod wedi gwrthod gwerthu y winllan am lawer o resymau, am ei fod yn sur yn erbyn y brenin, am mai brenin oedd, ac ysbryd i'w gondemnio fyddai hwn; neu am ei fod am fynegu ei annibyniaeth; ysbryd i'w gondemnio fyddai hwn. Ond mae'r gwir reswm yn anrhydeddus ac i'w edmygu. Mae dau fath o bethau yn y byd y gwna pobl gyffredin eu hedmygu. Y pethau ydym wedi ennill drwy ein hymdrech ein hunain a'r pethau sydd wedi dyfod i ni drwy ymdrechion ein tadau. Cwestiwn pwysig i bobl ieuainc ydyw hwn,—A oes yna ryw bethau wedi dyfod i chwi o'r gorffennol nad ydych yn fodlon gollwng eich gafael arnynt ar un cyfrif. Os oes, popeth yn dda. Os nad oes, mae gwacter yn eich bywydau na fedr dim ei lanw. Mae gennym ni rai pethau fel Undodiaid y dylem edrych arnynt yn y goleuni hwn. Un o'r pethau y dylem ni fel Cymry, o bawb, fod ar ein gwyliadwriaeth rhag ei golli ydyw'r Sabath. Ceisir ei brynu ag arian a phleser ond gofalwn am y dreftadaeth hon. Rhyddid—y peth mwyaf gwerthfawr mewn hanes yw'r frwydr dros ryddid—rhyddid gwladol a chrefyddol. Mae'r dreftadaeth hon yn werthfawr ac yn werth ei chadw. Mae rhyddid eisioes wedi mynd ar goll ar wledydd y cyfandir. Ac yma mae treftadaeth ein henwad. Etifeddiaeth ardderchog iawn ydyw hon. Mae hanes rhai o'n hachosion yn llawn o ramant. Sut y gwnawn ni ei defnyddio. Ceisir gennym werthu hon eto. Dangoswn ddewrder a phenderfyniad Naboth.

Yr unig ffordd deilwng y gall un dyn ddylanwadu ar y llall ydyw drwy ei annog i feddwl drosto ei hun, yn lle ceisio llanw ei ben ag opiniynau dynion eraill.—Syr Leslie Stephen.

# Yr Hawl i Ddedwyddwch.

Clywais ugeiniau o weithiau o bwlpud a llwyfan a darllenais fil o weithiau na ddaw dedwyddwch i'r hwn a'i ceisia. O geisio ohonom am ddedwyddwch, meddai'r athrawon, dihanga rhagom. Os am fod yn ddedwydd, rhaid byw yn dda, ac o fyw yn dda mae dedwyddwch yn canlyn,—fel *by-product*,—dyna'r gair ffasiynol.

O'r dechreu tueddwn i ameu y gredo yma. Weithiau ni allwn fod yn hollol sicr ai y gredo neu yr athro amheuwn fwyaf. Ond o leiaf ni chlywais neb yn traethu i'r perwyl yma heb deimlo fod yna gryn lawer i ddweyd ar yr ochr arall. Yn ddiweddar bum yn twrio hen gyfrolau er darganfod a fedrwn gyda thipyn o gymorth roddi rheswm dros y ffydd (neu yn hytrach yr amheuaeth) oedd ynof.

Darganfyddais fod yr athronwyr cymeradwy i gyd yn ymwrthod â'r athrawiaeth mai dedwyddwch ddylai nod bywyd i fod. Ar y llaw arall darganfyddais fod eraill yn ameu, fel y dywed un ohonynt,—"A ydyw'r athronwyr wedi llwyddo i ddangos beth mewn gwirionedd ydyw'r berthynas rhwng dedwyddwch a moesoldeb".

Dadleuir fel rheol fod gwneyd dedwyddwch yn nod bywyd yn hunanol, ac mae hunanoldeb wrth gwrs yn anfoesol. Ond beth ydyw hunanoldeb? A ydyw hunanoldeb o'i ddeall fel yr ysfa am fodloni holl ddyheadau yr hunan yn anfoesol? Defnyddiwn ni y gair fel rheol wrth gwrs i ddesgrifio anian y dyn sydd beunydd am fodloni ei hun ar draul gwadu neu anwybyddu hawliau eraill.

Ond pwy ond *dyn ei hunan* wedi'r cyfan sydd *yn* cydnabod hawliau pobl eraill. Bodloni rhyw gymhelliad ynddo ei hunan y mae dyn pan y mae yn caru ei gymydog. Ni fyddai ystyr i unrhyw weithred nac i unrhyw fywyd ar wahan i ymdrech barhaus i fodloni rhyw ran o'r hunan.

Mae dedwyddwch yn canlyn pan y bodlonir rhyw ysfa sydd ynom, ond os mae o'r hunan y daw pob dyhead, nid oes ystyr o leiaf mewn comdemnio yr ymchwil am ddedwyddwch *am ei bod yn hunanol*.

Clywyd weithiau fod yna gyflwr uwch na dedwyddwch sef gwynfydigrwydd (blessedness). Ond ai nid hollti blew ieithyddol ydyw peth fel hyn? Pan y dywedodd Iesu, "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd", ai nid ei feddwl oedd mai y bobl hyn oedd y bobl gwir a pherffaith ddedwydd?

Gan nad pa air a ddefnyddir, gwynfydigrwydd neu ddedwyddwch, mae yn amlwg, o gofio mai o'r hunan y daw pob cymelliad, mai y dyn moesol, y dyn da ydyw'r dyn sydd yn byw fel ag i fodloni

yr hunan perffaith. Y dyn anfoesol ydyw'r dyn sydd yn byw fel ag i fodloni rhai amherffaith o'r hunan. Ni fodlonir yr hunan perffaith oni fydd pob math o berthynas rhwng dyn a'i fyd, dyn a'i gyd-ddyn, a dyn a'i Dduw, yr hyn ddylai fod. Mae bodloni yr hunan perffaith yn golygu yn y pen draw fod dyn yn wir ddedwydd. Mae yr athrawon yn cyfaddef hyn, ond yn pwysleisio er hynny na oddefir i'r dyn moesol geisio am y dedwyddwch sydd yn canlyn o fyw y bywyd perffaith.

Mae ffydd mewn Duw cyfiawn yn golygu fod y dedwyddwch pennaf yn y pen draw yn eiddo'r dyn sydd yn byw y bywyd goreu. O wybod hyn, sut y gellir mewn unrhyw ffordd ymarferol wahanu y dedwyddwch a'r rhinwedd neu'r daioni sydd yn esgor ar y dedwyddwch?

Pe byddwn yn sant, fy holl ddyhead fyddai am fyw y bywyd perffaith. Gwn,—mae yn rhaid i mi gredu, mai gwyn fy myd (mai dedwydd fyddaf) ond i mi lwyddo gwneyd hyn. A oes unrhyw wahaniaeth ynte mewn dweyd fy mod yn ceisio am y bywyd perffaith a dweyd fy mod yn ceisio am ddedwyddwch?

Myn yr athronwyr fod yna wahaniaeth. Am ddweyd wyf finnau nad oes yna unrhyw wahaniaeth ymarferol.

Mynnaf fod hawl gan ddyn i wneyd dedwyddwch yn nod bywyd. Nid wyf yn sicr y gall wneyd yn amgen. Y peth pwysig yw iddo gofio na all dedwyddwch fod yn eiddo iddo oni fydd fyw yn berffaith.

Dadleuir na ellir synio am fywyd da heb hunan-aberth. Ond beth mae hunan-aberth yn olygu. Ai nid fod dyn yn aberthu rhyw fath o ddedwyddwch er mwyn dedwyddwch mwy. Mae'r merthyr yn rhoddi ei fywyd i lawr. Mae'r weithred o roddi ei fywyd i lawr yn rhoddi mwy o fodlonrwydd iddo na'r weithred o gadw ei fywyd ar y telerau gynygir iddo. Mae yn fwy dedwydd i gael rhoddi ei fywyd i lawr nag y byddai o'i gadw. A ydyw merthyrdod yn llai o werth am i ni gyfaddef fod y merthyr yn ddedwydd am iddo aberthu ei fywyd, ac iddo wybod hynny cyn penderfynu ar yr aberth? Nid yw yn ronyn llai o werth hyd y gwelaf i. Hyd y gwn i bu pob merthyr Cristionogol yn hollol sicr fod coron gogoniant yn ei aros yr ochr draw. A ydyw hyn yn lleihau gwerth yr aberth? Os ydyw, yna nid oedd aberth Iesu ei hun yn berffaith. "Heddyw y byddi gyda mi ym Mharadwys."

Dywedai "rhesymolwr" yn ddiweddar mai yr unig gymhelliad i'r Cristion i fyw yn dda oedd ofn tân uffern Os y golyga yr ysgrifennydd wrth hyn fod Cristionogion heddyw yn credu mewn tân materol fel cosb i ddrwg-weithredwyr yr ochr draw, mae wedi bod yn hepian yn rhywle. Ond o roddi ystyr ffigyrol i dân uffern mae gwirionedd yn y cyhuddiad ac nid yw'r Cristion fymryn llai o Gristion, nac yn fymryn llai moesol oherwydd hynny. A siarad yn ffigyrol nid yw ofni tân uffern ond ofni bod yn annedwydd.

Beth sydd yn cymell y rhesymolwr i wastraffu papur ac inc i ymosod ar Gristionogaeth ond yr ofn y bydd yn annedwydd oni wnaiff fynegu ei feddwl ?

Fe'n temtir i gredu ambell waith fod mwy o ffolineb yn cael ei ysgrifennu am anfoesoldeb gwneyd daioni er mwyn gwobr neu rhag ofn cosb nag am unpeth bron. Mae amryw sydd yn ymfalchio yn ei hatitiwd wyddonol yn hoff o ymosod ar Gristionogion ar y tir hwn. Ond sail pob gwyddor ydyw ffydd yn neddf achos ac effaith. Beth ydyw gwobr ond "effaith" bendant ffordd neillduol o fyw, a beth ydyw cosb ond effaith anocheladwy ffordd arall o fyw ?

O gredu y rheolir y byd moesol yn ogystal a'r byd aniannol gan ddeddf, rhaid credu mai effaith bywyd fel y dylai fod ydyw dedwyddwch. Os felly, ni all y sant osgoi dedwyddwch yn fwy nag y gall y dŵr osgoi rhedeg ar i waered. Ac o wybod fod pethau mor sicr a hyn—a ellir osgoi chwaith "edrych at daledigaeth y gwobrwy".

Credaf i ni gael ein creu i ddedwyddwch ; ac y byddai'r byd yn gryn iachach pe y caniatai yr athronwyr i ni gael golwg gliriach ar y berthynas rhwng rhinwedd a dedwyddwch.

A.A.C.

# Adolygiad.

## Y PROFIAD CRISTIONOGOL.

*CHRISTIAN EXPERIENCE. G. Randall Jones, M.A., B.Sc., B.D. No. 21. Religion : Its modern needs and problems Series. Lindsey Press. 1s.*

Mae'r gyfres yma o lyfrau gyhoeddir gan Wasg Lindsey wedi ennill cymeradwyaeth gyffredinol mewn cylchgronnau crefyddol a llenyddol drwy'r wlad ; mae'r llyfryn diweddaf hwn wedi cael adolygiadau neillduol o ffafriol gan amryw feirniaid o fri. Gweinidog Undodaidd yn Llundain ydyw'r awdur, ac mae wedi llwyddo mewn cwmpas byr i roddi deffiniad rhyfeddol o glir a chryno o'r hyn a olyga y profiad Cristionogol iddo ef. Ni ellir tybio am well llyfryn i roddi yn nwylaw dosbarth o ddynion sydd o bosibl ar gynnydd heddyw, pobl sydd yn holi mewn difrif—"Beth ydyw Cristionogaeth", ond heb fod ganddynt awydd nac amynedd i gloddio am yr ateb yng nghyfrolau llychlyd y diwinyddion proffesedig.

Hawlia yr awdur i ddechreu fod "ffeithiau" y profiad crefyddol yr un mor *real* a ffeithiau yr ymwneir â hwynt gan anianeg. Swyddogaeth diwinyddiaeth ydyw esbonio ffeithiau y profiad crefyddol. Y ffaith gyntaf o'r ffeithiau hyn ydyw fod i'r profiad crefyddol lawer o ffurfiau. Mae gan wahanol genhedloedd wahanol draddodiadau. Gwerth traddodiad yw y galluoga ni i ddysgu oddiwrth brofiadau pobl eraill. Ac mae cynnydd yn cymeryd lle o iawn ddefnyddio traddodiad. Mae i bob traddodiad ei werth, ond y traddodiad sydd yn eiddo i ni ydyw'r traddodiad Cristionogol. Yn y traddodiad Cristionogol ceir dau syniad wedi ymdoddi i'w gilydd, y syniad fod dyn yn blentyn Duw, a'r syniad

fod dyn rywsut wedi ei ysgaru oddiwrth Dduw. Mae'r ddau syniad yma yn esgor ar ymwybyddiaeth o wrthdarawiad, o frwydr, a'r ymwybyddiaeth yma yn mynegu eu hun yn "llais cydwybod".

Gallwn farnu dyn wrth yr hyn ydyw neu wrth yr hyn all ddod. Yn nysgeidiaeth yr Iesu ceir lle i'r ddwy safon. Rhaid i ddiwinyddiaeth foddhaol roddi eu lle priodol i'r ddwy safon, fel y gallwn gael golwg glir ar yr hyn ydym ac ar ein posibiliadau. Yn ôl y profiad a'r traddodiad Cristionogol, ym mywyd a gwaith Iesu y cawn weledigaeth o'n posibiliadau. Hawlir gan rai heddyw fod brychau ar gymeriad a dysgeidiaeth yr Iesu, ond amherffeithderau meddyliol ydyw'r brychau hyn, a rhaid eu hystyried yng ngoleuni yr argraff gyflawn wneir arnom drwy ddarllen hanes ei waith a'i ddysgeidiaeth. Gwelwn ddyn yn byw mewn cymundeb parhaus â Duw, a'i ymwybyddiaeth ef ei fod mewn cymundeb parhaus â Duw sydd yn rhoddi ystyr i'r athrawiaeth ei fod yn ddibechod. Ni allwn ddychmygu am fynegiant perffeithiach o "feddwl Duw" nag a geir yn Iesu Grist. Derbyniwn ef fel delfryd o ddyn, yn ymarferol, drwy ymdrechu i ufuddhau i'w orchymyn i garu ein gilydd.

Cyn y gellir ymgyrhaedd at nod uchel delfryd odidog, mae dau beth yn angenrheidiol, gweledigaeth o'r ddelfryd, a'r egni fedr ein gyrru ymlaen. Yn y profiad Cristionogol gwelir y ddelfryd yn ngeiriau a gweithredoedd yr Iesu. Dyma grefydd yr Iesu (the religion of Jesus). Daw'r egni o argyhoeddiadau neillduol am yr Iesu (the religion about Jesus). Un o'r argyhoeddiadau sydd wedi chwareu rhan bwysig yn hanes Cristionogaeth ydyw'r argyhoeddiad fod yr Iesu wedi adgyfodi.

Haera yr awdur na ellir esbonio y cyfnewidiad gymerodd le ym meddyliau y disgyblion cyntaf ar ôl y Croeshoeliad heb gymeryd yn ganiataol eu bod yn argyhoeddedig fod y Meistr yn fyw. Argyhoeddiad yn y meddwl (subjective) oedd yr argyhoeddiad ond mae gennym hawl i gredu fod digwyddiad allanol, *real*, (objective reality) o'r tu ôl i'r argyhoeddiad. Ni ellir cyfrif am yr argyhoeddiad yma, yr hwn yn unig all esbonio cychwyniad yr Eglwys Gristionogol, ond drwy gredu fod y profiad yn brofiad o rywbeth ddigwyddodd mewn gwirionedd. Nid ei gorff allanol ddygodd Iesu i'r byd arall ond yr oll o'r gwerthau wnant i fynu eu bersonoliaeth. Nid yw credu fod Iesu yn arweinydd ysbrydol yn ddigon. Enillwyd yr oll o'u buddugoliaethau gan Gristionogion ar hyd yr oesau am iddynt deimlo eu bod dan arweiniad arweinydd *byw*. Mae'r gred mewn Crist byw wedi ei seilio ar yr argyhoeddiad fod i bersonoliaeth yr Iesu y gwerth pennaf (supreme value), ac fod y gwerthau i gyd yn ddiogel yn nwylaw Duw. Perthynas achlysurol yn unig sydd rhwng personoliaeth a'r corff. Mae personoliaeth yn parhau i fyw yn nerth yr hyn sydd o werth ynddo. Os oes i bersonoliaeth yr Iesu y gwerth pennaf, yna y pwysigrwydd pennaf yw fod yr Iesu yn fyw. Dyma'r peth sydd iddo y pwysigrwydd pennaf yn y profiad Cristionogol.

Mae credu yn yr Iesu mewn ffordd fywydol yn golygu byw mewn cymundeb ag ef, a sicrheir y cymundeb hwn drwy roddi ein hunain i fynu i ddylanwad ei ysbryd. Dylanwada ysbryd yr Iesu ar y byd heddyw drwy ei eglwys. Yr esboniad cyffredinol ar brofiad Cristionogion yng nghymdeithas yr eglwys ydyw fod Crist yn bresennol mewn gwirionedd yn y gymdeithas. Mae Ffydd yn y Crist byw yn golygu byw a gweithredu yn unol â'r gred fod Duw yn defnyddio Crist fel ei gennad at bwy bynnag sydd yn ymwybodol o her ysbryd Crist.

Dyna grynodeb o gynnwys y llyfr. Tra yn cydnabod fod yr awdur wedi trafod ei bwnc yn feistrolgar, ni ellir peidio teimlo rywsut na cheir yma nag Iawnffyddiaeth nac Undodiaeth. Mae syniad yr awdur mai ymwybyddiaeth yr Iesu o gymundeb parhaol â Duw sydd yn rhoddi ystyr i'r athrawiaeth ei fod yn ddibechod yn wir werthfawr. Ond ni ellir tybio y bodlona hyn yr Iawnffyddwr, tra y teimlir fod yr awdur yn lled awgrymu rhywbeth na all Undodwr ei dderbyn.

A ydyw yn wir i ddweyd nad ydyw derbyn yr Iesu fel arweinydd ysbrydol neu foesol yn ddigon? Mae gennyf syniad fod hyn wedi profi yn ddigon o ysbrydoliaeth i'r mwyafrif mawr o Undodiaid. Ni cheisir awgrymu nad oes

perffaith hawl gan Undodwr i gredu fod ysbryd Crist byw yn ei dywys a'i ysbrydoli. Ond onid awgrym yr awdur ydyw fod Crist yn fyw mewn rhyw ystyr hollol wahanol i neb arall o arweinwyr crefyddol yr oesau ?

Mae yn anodd dilyn ei ymresymiad am yr adgyfodiad. I ddechreu, nid ydym yn hollol sicr mai'r argyhoeddiad fod yr Iesu wedi adgyfodi mewn ystyr real ydyw'r *unig* beth all gyfrif am ddechreu yr Eglwys. Mae gan amryw o ysgolheigion,—Loisy, er enghraifft, ddamcaniaethau eraill. Ond a bwrw fod y disgyblion yn argyhoeddedig fod yr Iesu wedi adgyfodi mewn ystyr " real ", ni olygai hynny iddynt hwy ond un peth ; yr oedd Iesu wedi adgyfodi yn y corff. Ac os mai dyna oedd eu hargyhoeddiad, dyna sydd i gyfrif am ddechreu yr Eglwys Gristionogol. Mae sôn am " werthau " mewn cysylltiad â chred syml y disgyblion a'r gwragedd wrth y bedd yn hollol ddibwynt.

Eto, o'r safbwynt Undodaidd, mae'n amheus a ydyw y profiad Cristionogol mewn cysylltiad ag addoliad yn cynnwys iddynt hwy yr argyhoeddiad fod Crist yn bresennol yn yr ystyr awgrymir gan yr awdur.

Yng ngoleuni yr hyn a wn am yr awdur, mae'n sicr gennyf na fyddai y feirniadaeth yna ond yn cryfhau ei argyhoeddiad fod rhai Undodiaid yn cyfeiliorni yn eu cred fod Undodiaeth yn sefyll dros esboniad o'r profiad crefyddol sydd yn gwahaniaethu yr hanfodol oddiwrth yr esboniad lawnffyddol. Ond ni fedraf ond dweyd,—nid dyna a olyga Undodiaeth i mi.

Ond, ar waethaf anghytuno, mae'r llyfr yn wir werthfawr, a phe ond am ei safbwynt anarferol dylid ei brynu a'i ddarllen gan bob Undodwr meddylgar.

T.L.J.

# Priodasau.

Tachwedd 16, yng nghapel Pantydefaid unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog ym mhresenoldeb y Cofrestrydd—Mr. David Davies, GRIFFITH EDWARD ROBERTS â MARY LEWIS, merch Mr. a Mrs. Joshua Lewis, Fron Tysul, Llandysul.

Yng nghapel Llwyncelyn, Llanarth, Tachwedd 30, o flaen y Cofrestrydd—DANIEL THOMAS, Synod-ganol, Llanarth â Miss MARGARET ELLEN JONES, merch Mr. a Mrs. Edward Jones, Rhydsais, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, Capelyfadfa ; J. C. Lloyd (A), Brynrhiwgaled a D. R. Thomas (A), Llwyncelyn.

# Marwgofion.

Yr 16eg o Orffennaf, yn 143, Rhydypennau Road, Llanishen, Caerdydd, bu farw ELLEN LUCKWILL, yn 63 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Benjamin Williams, Troedyrhiw, Llanwnen, a chwaer i Mrs. Margaret Jones, Ralltfach, plwyf Llanbedr. Cladwyd yng Nghladdfa gyhoeddus Caerdydd.

Medi 30, yn 67 mlwydd oed, bu farw DAVID LLOYD, Market Place, Llanbedr wedi dihoeni'n hir. Scout yng Ngholeg Dewi Sant ydoedd a bu yma gyda thô ar ôl tô o fyfyrwyr, ac yr oedd ei galon yn yr hen goleg. Adwaenai ef offeiriaid cylch eang am eu bod wedi bod yn fyfyrwyr yma, a diddorol oedd ei glywed yn adrodd am droion y coleg. Er nad ydoedd yn hen, yr oedd anhwyldeb

wedi gafael ynddo fel na fedrai ond prin gerdded tro bach o'r tŷ. Nid oedd wedi'i gaethiwo i'w wely hyd at y diwedd ond yr oedd yn boenus ac yn methu cerdded ymhell. Gŵr siriol ydoedd, ac yn barchus gan y myfyrwyr a'r ardalwyr. Claddwyd y dydd Gwener canlynol ym Mynwent Eglwys St. Pedr, Llanbedr, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan Gurad y plwy a'r Parch. T. O. Williams, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan yr Offeiriaid ac Athrawon Coleg Dewi Sant. Gadawodd briod a dwy ferch a pherthynasau eraill i alaru ar ôl priod a thad caredig.

Hydref 27, yn 85 mlwydd oed, bu farw ELIZABETH DAVIES (Liza fach "), ym Maesymeillion, Cellan, wedi dihoeni'n hir. Yn y gornel ydoedd ers blynyddoedd, ac yr oedd yn edrych yn hen a ffaeledig bron y tro cyntaf i mi ei gweld. Yr oedd rhywbeth yn agos a charedig ynddi ac fe welir ei lle yn wag. Nid oedd neb yn fwy hoff o ofalu amdanaf na hi, ac yn fy nisgwyl. Y mae wedi mynd. Yr oedd fel y ddeilen grin olaf. Cofiaf yng Nghaeronen nifer o hen wragedd selog ond y mae yr olaf wedi mynd a choffa da amdanynt bob yr un. Claddwyd hi y dydd Mercher dilynol yn naear mynwent Caeronnen, a gwasanaethwyd yn ei hangladd gan ei gweinidog. Gadawodd un nith heblaw nifer o gymdogion a chydnabod i wylo deigryn o hiraeth ar ol un wirion a diniwed.

Tachwedd 8, ar ôl cystudd byr, MARY ANNE EVANS, annwyl briod Johnnie Evans (mab Moelhedog-isaf, Pontshan), 14, Tynewydd Terrace, Cross Hands, yn 43 oed. Gadawodd briod, pedwar o blant, tad, brodyr, chwiorydd, a llawer o gyfeillion i wylo ei cholli. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Bethania, Upper Tumble, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. F. H. Davies, gweinidog y lle ; a'r Parchn. E. O. Jenkins, B. James (B) a J. Thomas (A). Dywedai'r torchau a'r blodau roddwyd ar fan ei bedd fod un annwyl wedi mynd.

Nawn Mercher, Tachwedd 13, JAMES LEWIS EVANS, Cil-llwch, Dihewid, yn 51 oed. Mab ydoedd i'r diweddar James a Sarah Evans, Pantiorlech, Pontshaen. Flynyddoedd yn ôl, cyn iddo gael ei wasgaru, yr oedd teulu Pantiorlech yn deulu pwysig yn yr ardal ac yn fawr ei sêl dros yr achos yn Llwynrhydowen. Yr oedd yr ymadawedig ers blynyddoedd yn cydfyw â'i chwaer yn Cil-llwch ; a'r diwrnod uchod gan fod y gwasanaeth-ddynion ar eu gwyliau syrthiodd arnynt hwy ill dau i odro'r gwartheg. Yn union wedi cychwyn ar y gwaith galwodd ar ei chwaer am gynorthwy a bu farw rhwng ei dwylaw cyn gallu galw am help o unrhyw fan. Bachgen parod i gymwynas ydoedd. Ni fyddai ofn ar neb droi ato am gymorth ta beth fyddai'r galw. Fe wêl ardal Dihewid ei eisiau'n fawr ar y tir yma. Yr oedd hefyd yn gwmniwr dymunol iawn. Yr oedd ganddo ei farn ei hun ar bob mater a medrai draethu ei farn yn dawel a phwyllog. Yr oedd yn ergyd drom i'r chwaer i'w golli mor sydyn. Gadawodd ferch, dwy chwaer, dau frawd a llawer o berthynasau ereill mewn galar. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams ac yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins.

Y 18fed o Dachwedd, bu farw JANE JONES, Shop Inn Fach, ym mhentref Llanwnen, ar ôl rhai blynyddoedd o nychtod, yn 81 oed. Nid oedd iddi berthynasau agos rhagor nifer luosog o neiaint. Treuliodd fywyd tawel, di-ddrwg, di-sôn-am-dani, a mawr hoffid hi gan a'i hadnabyddai'n oreu. Collodd ei hunig ferch tua deng mlynedd yn ôl, a bu hynny'n achos siom fawr iddi. Ymaelododd yng Nghapelygroes yn gymharol ieuanc, a hi oedd yr henaf (yr oedd o nifer yr henaf, o leiaf) o'r aelodau presennol ; a hyd medrodd, bu'n rhyfeddol o ffyddlon ; ac yr oedd i'r achos le cynnes yn ei chalon. Claddwyd ym mynwent Capelygroes dydd Gwener dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gyda chynorthwy'r Parch. B. Davies, ficer Llanwnen.

# Nodion yr Eglwysi.

CYMANFA GANU CEREDIGION 1936.—Cynhelir y Gymanfa uchod yng Nghapel Seion, Llandysul, Mehefin 15, 1936. Disgwylir y bydd y dair anthem fwriedir eu canu, yn nwylaw arweinyddion yr Eglwysi ddechreu Rhagfyr. Bydd y rhaglen hefyd yn barod cyn diwedd y mis.

CAPELYGROES.—*Y Women's League.* Cychwynodd y gymdeithas hon ei thymor gaeaf nos Wener y 15fed o Dachwedd. Daeth nifer luosog ynghyd, a mwynhaodd pawb y tê a'r melysion o bobmath a ddarparwyd gan Mrs. Jenkins, Blaenwaun-uchaf. Wedi gwneuthur y trefniadau ar gyfer y dyfodol, a thalu diolch, ymwahanwyd gyda dymuniad am gael ei debig eto.—Cynhaliwyd y cyfarfod rheolaidd cyntaf nos Wener dilynol, pryd y caed anerchiad gan y Parch. D. Evans, Cwmiago, ar "Hanes Undodiaeth yng Ngheredigion", yn fwyaf arbennig, "Hanes Capelygroes."

CAPELYGROES.—*Yr Ysgol Sul.* Cynhaliwyd *Social* yr Ysgol Sul nos Sadwrn, y 23ain o Dachwedd. O saith hyd naw caed tê, a daeth nifer luosog i gyfranogi o hono. Wedi hynny, caed cyfarfod cystadleuol dan lywyddiaeth Mr. D. Rees, Tynewydd, ac arweinyddiaeth Mr. T. J. Jones, Ysgolfeistr, Llanwnen.

LLWYNRHYDOWEN.—*Urdd y Benywod.* Agorwyd tymor gwaith y gaeaf nos Iau, Tachwedd 7, gyda *Social.* Rhoddwyd y wledd y tro hwn gan Mrs. Jones, Heulwen a Miss Evans, Llwynmarles a chwarae teg iddynt yr oedd i fyny â rhai rhagorol y gorffennol. Daeth nifer luosog ynghyd a thalodd pob un swm fechan am fynd i mewn ac aeth y derbyniadau yn eu crynswth i Drysorfa'r Urdd. Cafwyd noson ddifyr a hapus iawn. Diolchwyd i'r ddwy chwaer gan Mrs. Jones, Gelliaur a Miss Jones, Gellifaharen.

## GELLIONNEN.

O WAEDD byd ar fynydd ban,—uwchlaw ffug
A chloff hwyl ddiamcan,
Efo'r Iôr mi wnâf fy rhan—yn ddi-baid
Daw mêl i enaid o demel Anian.

Bannau am gyfrin bennod—i enaid,
Annwyl "fan cyfarfod,"
Nid oes hen nodau isod,
Na dim ond Duw yma'n dod.

Ysig enaid, esgynna—i'w orsedd
Am wersi, nac oeda;
Annifyr ŵr ni fawrha
Iaith ryfedd ei athrofa.

*Trebanos.* LLANORFAB.

*Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.*

**A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE** (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

**CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION**
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

**THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY**
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

**DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES**
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

**CHRISTIAN EXPERIENCE**
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
**RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS**
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

*Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.*

**The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.**

---

**OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL**

—RHOWCH GOPI O'R—

# "PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

**ARGRAFFIAD SOLFFA.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ... | 7 | 0 |
| Lledr ... ... ... ... eto ... | 5 | 6 |
| Lledr, ochrau Llian ... ... ... eto ... | 4 | 6 |

**ARGRAFFIAD HEN NODIANT.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Lledr, Ymylon Aur ... ... ... ... ... | 7 | 6 |
| Rhwymiad Arbennig, eto ... ... ... ... | 15 | 0 |

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

## Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

# Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

GOLDSMITH, SILVERSMITH, JEWELLER,
:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

We have an excellent selection of
: : ENGAGEMENT and WEDDING RINGS : :
: LADIES' and GENTS' WRISTLET WATCHES :
TEA and COFFEE SERVICES in SOLID SILVER
: : : : : : : : : and E.P.N.S. : : : : : : : : :
: Also TABLE SILVERWARE in great variety :

**Repairs in all branches relating to the above carried out on the premises**

31, Great Darkgate Street
ABERYSTWYTH
TELEPHONE No. 209.